**AC 03-03(p4)**

# Y PWYLLGOR ARCHWILIO

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 27 Mawrth 2003 |
| **Amser:** | 09:10 |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| **Teitl:** | Nodyn yn crynhoi'r gwaith sydd ar ôl i'w wneud gan y Pwyllgor Archwilio y bydd angen i'r Pwyllgor newydd ei wneud |

## Pwrpas

1. Mae'r papur hwn yn crynhoi adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio sydd yn y broses o gael eu llunio neu adroddiadau nad yw'r Cabinet wedi ymateb iddynt eto. Mae'n gofyn i'r Pwyllgor benderfynu gwahodd y Pwyllgor Archwilio newydd i weithio ar yr eitemau hyn. Mae hefyd yn rhestru'r adroddiadau a gyhoeddwyd yn barod gan y Pwyllgor, gan y gallai fod angen i'r Pwyllgor newydd barhau â gwaith.

## Argymhelliad / Gweithredu

2. Gofynnir i'r Aelodau:

> <u>Benderfynu</u> bod y Pwyllgor Archwilio newydd yn mynd i barhau â'r gwaith ar yr eitemau a restrir ym mharagraffau 3 - 6.

## Gwaith sydd ar ôl i'w wneud

3. Adroddiadau i'w trafod ac i ddod i gytundeb arnynt heddiw:

- Parhau â'r gwaith o adfywio Bae Caerdydd
- Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant: Cyfrifon am y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2002
- Adeilad newydd y Cynulliad Cenedlaethol: adroddiad diweddaru

4. Adroddiadau sy'n cael eu paratoi ac y bydd angen i'r Pwyllgor newydd eu trafod a chytuno arnynt:

- Gwaredu Ysbyty Canolbarth Cymru
- Rheoli Ystâd Addysg Bellach yng Nghymru
- Caffael Meddyginiaethau Gofal Sylfaenol

5. Bydd angen ystyried ymateb y Cabinet i’r adroddiadau canlynol:

- Y chwe adroddiad ym mharagraff 3 a 4 uchod
- Yr adroddiad cyffredinol ar waith archwilio ariannol Archwilydd Cyffredinol Cymru 2002
- Osiris: Contract PFI ar gyfer darparu technoleg gwybodaeth yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru

6. Efallai y bydd angen i’r Pwyllgor newydd barhau â’r gwaith ar yr adroddiadau a restrwyd ym mharagraffau 3 - 5 uchod ac ar adroddiadau a gyhoeddwyd eisoes, sy’n cael eu rhestru yn y tabl canlynol:

| **Rhif yr adroddiad** | **Teitl** | **Dyddiad cyhoeddi** |
|---|---|---|
| 00-01 | Diogelu a Chadw Treftadaeth Adeiledig Cymru | 10 Mawrth 2000 |
| 00-02 | Taliad afreolaidd a wnaed i gyn Gyfarwyddwr Cynorthwyol Amgueddfa Genedlaethol Cymru | 12 Mai 2000 |
| 00-03 | Addysg Bellach yng Nghymru | 09 Mehefin 2000 |
| 00-04 | Ar gyfrifon Cryno NHS (Cymru) 1998-99 | 13 Gorffennaf 2000 |
| 00-05 | Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru: Archwiliad Ariannol o Gyfrifon 1998-99 | 23 Awst 2000 |
| 00-06 | Awdurdod Datblygu Cymru: Creu'r Awdurdod Estynedig a Chefnogaeth yr Awdurdod i Fusnesau Cynhenid Cymru | 24 Tachwedd 2000 |
| 00-07 | Coleg Gwent | 1 Rhagfyr 2000 |
| 01-01 | Morglawdd Caerdydd | 15 Chwefror 2001 |
| 02-01 | Trefniadau Adeiladau Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 03 Mai 2001 |
| 03-01 | Mynediad i gofnodion a gwybodaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru | 30 Mai 2001 |
| 04-01 | Esgeulustod Clinigol yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru | 16 Awst 2001 |
| 05-01 | Cyfrif Adnoddau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer 1999-2000 ac Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru: Archwiliad Ariannol o Gyfrifon 1999-2000 | 06 Medi 2001 |

| | | |
|---|---|---|
| 06-01 | Mwynhau'r Incwm mwyaf oddi-wrth daliadau pregripsiynau | 29 Tachwedd 2001 |
| 01-02 | Cyfrifon Cryno GIG Cymru 1999-2000 | 16 Ionawr 2002 |
| 02-02 | Addysgu a hyfforddi Gweithlu Iechyd Proffesiynol y Dyfodol I Gymru | 24 Ionawr 2002 |
| 03-02 | Sicrhau Dyfodol Bae Caerdydd | 16 Ebrill 2002 |
| 04-02 | Caffael yn y Sector Addysg Bellach yng Nghymru | 25 Ebrill 2002 |
| 05-02 | Cyngor Celfyddydau Cymru: Canolfan y Celfyddydau Gweledol | 19 Mehefin 2002 |
| 06-02 | Cyllid GIG Cymru 2002 | 25 Gorffennaf 2002 |
| 07-02 | Rheoli Ystad Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol Yng Nghymru | 1 Awst 2002 |
| 08-02 | Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd : Mwyhau'r Buddion I Gymru | 5 Rhagfyr 2002 |
| 09-02 | Adnewyddu ar gwaredu eiddo a ddelir gan<br><br>Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol Yng Nghymru | 12 Rhagfyr 2002 |
| 01-03 | Yr adroddiad cyffredinol ar waith archwilio ariannol Archwilydd Cyffredinol Cymru 2002 | 3 Chwefror 2003 |
| 02-03 | Osiris: Contract PFI ar gyfer darparu technoleg gwybodaeth yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru | 25 Chwefror 2003 |

**Man Cyswllt**
**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau**